# Polisi Absenoldebau (Plant) Oherwydd Salwch

**Ysgol Llanbedrog**

**Dyddiad Cymeradwyo:** 22/10/19

**Dyddiad Adolygu:** Tymor yr Hydref (Blynyddol)

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Alaw Ceris

**Dyddiad:** 11/12/23

1. **Cyflwyniad**

- Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ynghylch â chadw plant sy'n sâl neu'n heintus o'r ysgol. Mae wedi'i gymeradwyo drwy ymgynghori â Llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr yr ysgol. Mae polisi yn cael ei rannu gyda rhieni/gofalwyr wrth iddynt gofrestru eu plant i'r ysgol, ar wefan yr ysgol ac yn Llawlyfr yr ysgol.
- Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhiant/gofalwyr/oedolyn dynodedig arall os yw plentyn yn mynd yn sâl tra yn yr ysgol.

2. **Rhieni**

- Dylai rhieni/gofalwyr gadw eu plentyn sy'n amlwg yn wael o'r ysgol nes y bydd yn ddigon iach i allu manteisio ar addysg a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Hefyd, dylai rhieni/gofalwyr gadw plentyn sy'n dioddef o rai clefydau heintus o'r ysgol am gyfnod priodol i gynorthwyo i gadw plant eraill rhag cael eu heintio, hyd yn oed os ydynt yn ymddangos yn iach.

3. **Cyfnodau o Absenoldeb oherwydd Salwch**

- Wrth ymdrin â chyfnodau absenoldeb plant sy'n wael neu'n heintus bydd yr ysgol yn gweithredu o fewn y Cyfarwyddyd ar Reoli Heintiau mewn Ysgolion Gwynedd (Chwefror 2012) ac yn ystyried y canlynol:
- cyfrinachedd – ni fyddwn yn trafod salwch plant unigol gyda rhieni/gofalwyr eraill
- hawliau'r unigolyn o safbwynt cydraddoldeb mynediad wrth ymdrin â chyfnodau absenoldeb plant sy'n wael neu'n heintus
- cyngor meddygol a'r gweithdrefnau ynglŷn â chlefydau heintus, clefydau sydd angen hysbysu a chlefydau a throsglwyddir
- gofalu am blentyn sy'n sâl tra byddir yn disgwyl i rywun ddod i'w gasglu
- y goblygiadau ar gyfer plant eraill a'r staff
- yr angen i hysbysu'r Awdurdod Addysg Lleol/Swyddog Lles Addysg a llunio cynllun addysg os yw plentyn yn debygol o fod i ffwrdd o'r ysgol am resymau meddygol am ragor na phedair wythnos.

4. **Gweithdrefn yr Ysgol**

Bydd yr ysgol yn:

- sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch â materion yn ymwneud ag iechyd ar gael
- penodi un aelod o'r staff i gydgysylltu ymateb yr ysgol i achosion o haint
- sicrhau bod y Pennaeth yn cael gwybod yn syth os yw staff yr ysgol yn amau bod plentyn yn dioddef o glefyd heintus
- hysbysu'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau a Throsglwyddir 01352 803234 a dilyn y cyngor a roir os oes amheuon o achosion lluosog (dau neu ragor o achosion o glefyd heintus)
- hysbysu'r Nyrs Ysgol o'r canlyniadau
- hysbysu rhieni/gofalwyr eraill pan fydd achosion o haint a diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd os bydd achosion lluosog wrth ystyried cyfrinachedd
- derbyn cyngor y Nyrs Ysgol, Meddyg neu Ymgynghorydd Rheoli Clefydau a throsglwyddir 01352 803234.
- sicrhau bod y rhieni/gofalwyr wedi cofrestru'r plant gyda meddyg teulu a'u hannog i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r holl frechiadau angenrheidiol
- sicrhau bod y staff yn derbyn gwybodaeth am yr holl frechiadau angenrheidiol hefyd
- sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gwybod bod angen iddynt hysbysu'r ysgol pan fydd eu plentyn yn dioddef o unrhyw salwch neu gyflwr meddygol
- diweddaru rhifau cyswllt mewn argyfwng a manylion meddygol plant yn rheolaidd
- gwneud trefniadau wrth gefn pan na ellir cysylltu â rhieni/gofalwyr neu pan na fedrant gasglu plentyn sy'n sâl
- cydnabod bod cyfnodau absenoldeb oherwydd salwch yn gymwys ar gyfer staff hefyd.